**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Claire Homard
Cadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

11 Gorffennaf 2024

**Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd ar yr Ymylon**

Annwyl Claire,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi yn casglu tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad 'plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon'. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar blant sydd ar goll a phlant a phobl ifanc sydd wedi'u troseddoli. Ceir rhagor o fanylion am ein hymchwiliad, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, ar ein tudalennau gwe.

Daeth y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn i ben ar 23 Ionawr 2024. Rydym bellach wrthi'n casglu tystiolaeth anffurfiol gan randdeiliaid drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid ac ymweliadau ymgysylltu. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ein blaenraglen waith, rydym wedi penderfynu ceisio tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i thargedu gan randdeiliaid allweddol yn hytrach na chynnal sesiynau tystiolaeth lafar ffurfiol. Yna byddwn yn cynnal sesiwn graffu ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Medi 2024.


Rydym felly yn ceisio eich barn ar unrhyw agwedd ar yr ymchwiliad i gryfhau ein tystiolaeth ysgrifenedig. Yn ogystal ag unrhyw sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr ymchwiliad, byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y pwyntiau penodol a ganlyn:

- Rôl ysgolion fel amgylcheddau amddiffynnol i blant sydd mewn perygl o gael eu gwthio i'r ymylon (h.y. sydd mewn perygl o fynd ar goll, o gael eu troseddoli, neu o gael eu gwthio i'r ymylon mewn rhyw ffordd arall). (Clywsom gan randdeiliaid rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl ifanc y camfanteisir arnynt yn droseddol nad oes yr un o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw yn mynd i'r ysgol.)

- I ba raddau y mae gwaharddiadau o'r ysgol yn rhoi plant mewn perygl ychwanegol o gael eu gwthio i'r ymylon, ac a yw’r canllawiau cyfredol yn caniatáu i ysgolion arfer disgresiwn ynghylch a ddylai plant gael eu gwahardd am resymau diogelu ai peidio (a thelerau unrhyw waharddiad maent yn ei wneud).
- Rhinweddau neu wendidau polisïau 'dim gwaharddiadau', fel yr un a fabwysiadwyd gan Gyngor Southwark.
- Pryderon rhanddeiliaid am blant sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol o ran pwy sy’n goruchwylio eu llesiant a’u diogelwch pan fyddant y tu allan i system ysgolion a gynhelir.
- Pryderon rhanddeiliaid am eu profiad o bobl ifanc sydd, fel petai, 'dan waharddiadau answyddogol' lle nad yw disgyblion yn mynd i’r ysgol.
- Unrhyw faterion addysg-benodol eraill sy’n ymwneud â phlant coll neu gamfanteisio’n droseddol ar blant ochr yn ochr ag unrhyw argymhellion yr hoffech i’r Pwyllgor eu gwneud yn hyn o beth.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 23 Awst 2024 fan bellaf fel y gallwn ystyried eich barn cyn ein sesiwn graffu gyda Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.